

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 24^{AIN} MEHEFIN 2020
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

- 1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)
- 1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV), Einir Williams (EW), R Emlyn Williams (REW) a Mark Davies (MD)
- 1.3** Ymddiheuriadau: Garffild Ll Lewis (GLL), Gwynfor Davies (GD), Elen H Edwards (EHE), Gwydion Jones (GJ) a Diane Roberts (DR)
- 1.4** Absennol: Gwyn Williams (GW)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 27^{AIN} MAI A 3^{YDD} MEHEFIN 2020

27^{ain} Mai 2020: Cynnigwyd yn gywir gan REW ac eilwyd gan AV.

3^{ydd} Mehefin 2020: Cynnigwyd yn gywir gan MD ac eilwyd gan AV.

4 MATERION YN CODI

Cofnodion Cyfarfod 27^{ain} Mai 2020: cododd CR y prosiect lleoedd natur, wedi clustnodi ardal yn Llangernyw, angen cadarnhad fod y Cyngor yn gytun efo'r safle drafodwyd. Roedd pawb yn gytun, CR i gysylltu nôl efo'r prosiect i gadarnhau.

5 MATERION YN CODI

Cofnodion Cyfarfod 3^{ydd} Mehefin 2020: dim materion yn codi.

6 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim ceisiadau cyllunio wedi dod i law.

7 MATERION Y CYNGOR

- 7.1** Ebst wedi dod i mewn i'r Cyngor. Trafodwyd fod modd i bawb ei lenwi'n unigol, Cynghorwyr i wneud hyn.
- 7.2** 'The Safe and Warm Fund'. Tynnu sylw i'r cymorth ar gael, Cynghorwyr i gyd yn gwybod amdano ac yn fodlon son amdano wrth bobl maent yn credu y buasai'n elwa ohono.
- 7.3** Grant Elusennol ar gael i wahanol brosiectau lleol. Trafodwyd y buasai'r canolfanau cymuned lleol a'r Clwb Pêl Droed Llangernyw yn gallu gwneud cais am hwn, cyswllt i'w wneud i'w hanog i wneud cais. Trafodaeth fod y grant i elusenau ond ei fod yn eang i gynnwys hamdden. Cododd EW y buasai'n syniad da rhoi hysbyseb am y grant ar wefan Bro Cernyw. Cynghorwyr i basio manylion/gwybodaeth am y grant ymlaen i gymdeithasau.

8 MATERION ARIANNOL

- 8.1** Mantolen y Cyngor Cymuned: diolchwyd i DR a GD yn eu habsenoldeb am eu gwaith trylwyr wrth baratoi'r fantolen. REW yn cynnig a EW yn eilio ei fod yn gywir a derbyniwyd gan y Cyngor.
- 8.2** Mantolen Cronfa Bro Cernyw: diolchwyd i Elwen Owen am ei gwaith yn paratoi'r ddogfen yma hefyd yn drylwyr. Nodwyd fod un siec i Gymdeithas Chwaraeon heb ei thalu mewn i'r banc ers 2018/2019. Trafodwyd fod y Cyngor wedi derbyn rheswm pam fod y siec heb ei chyflwyno ond yn anffodus nid oedd neb yn cofio pam. CR yn codi y dylsai'r siec gael ei dychwelyd i'r Cyngor ac unai cael siec newydd os yw'r gwaith wedi ei wneud neu wneud

cais newydd am arian. EW am gysylltu efo Nicola Roberts i holi am y siec a hefyd Elwen Owen gan ei bod wedi derbyn y ffurflen gais.

EW yn cynnig fod y fantolen yn gywir ac eilwyd gan REW.

- 8.3** Awdit Ariannol y Cyngor Cymuned: EW yn codi fod awdit angen ei chyflwyno erbyn diwedd y mis. EHE a EW wedi bod trwy'r ffurflen yn ateb y cwestiynau arno. Cododd EW fod angen diweddarau rheolau sefydlog, rheolau ariannol a rhestr asedau. Eitem ar agenda nesaf. Angen ychwanegu ar y rheolau sefydlog fod y Cyngor yn fodlon cynnal cyfarfodydd digidol fel sydd yn digwydd ar hyn o bryd oherwydd y pandemig Covid-19, ac hefyd at y dyfodol. CR am holi DR os oes ganddi gopi o'r asedau er mwyn ei drafod yn y cyfarfod nesaf. CR i ofyn wrth DR edrych ar hen laptop Elwen Owen amdanynt. Roedd pawb yn gytun i benodi'r cyfrifydd, Iona Edwards, i baratoi'r dogfennau ar gyfer yr awdit.

9 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR

- 9.1** Dim wedi dod i law cyn y cyfarfod.

10 BILIAU

10.1 Un Llais Cymru: £163 cytunwyd i'w dalu.

10.2 Enlli: £31.57, cytunwyd i'w dalu.

10.3 Dei Evans torri glaswellt yn y mynwentydd £400: cytunwyd i'w dalu.

10.4 CVSC tal aelodaeth: £15.

10.5 AV: biliau am y blodau yn y tybiau yn y tri pentref £110: cytunwyd i'w dalu.

11 MATERION LLEOL

AV gyrru ar y ffyrdd lleol dal i fod yn broblem. Llythyr hefyd wedi ei dderbyn gan Lynda Kettle ar ran Menter Bro Cernyw yn diolch am £500.

REW llwybr Tyn y Ffordd, CR yn adrodd fod y ffurflen wedi ei chwblhau a'i gyrru yn ôl i'r Cyngor, aros am ymateb.

12 CYFARFOD NESAF

22^{ain} Gorffennaf 2020

Cyfarfod yn dod i ben 8:10yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan